# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddNHAMG@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (13.30-13.45)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

## Cyfarfod cyhoeddus (13.45-16.30)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.45)

### 2 Llifogydd yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

(13.45-14.45) (Tudalennau 1 - 15)

Syr David Henshaw, Cadeirydd - Cyfoeth Naturiol Cymru

Clare Pillman, Prif Weithredwr - Cyfoeth Naturiol Cymru

Ceri Davies, Cyfarwyddwr Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu - Cyfoeth Naturiol Cymru

Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau - Cyfoeth Naturiol Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Adroddiadau Llifogydd yng Nghymru - Cyfoeth Naturiol Cymru

## Egwyl (14.45-15.00)

## 3 Covid-19 a Threfniadau pontio'r Undeb Ewropeaidd: Sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru

(15.00-16.30)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Rhodri Asby, Dirprwy Gyfarwyddwr Economi Gylchol ac Effeithlonrwydd Adnoddau

Christianne Glossop, Swyddfa'r Prif Filfeddyg

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil (Saesneg yn unig)

Ymateb gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'r llythyr 6 Hydref gan y Cadeirydd yn dilyn sesiwn graffu 17 Medi

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Ymateb gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'r llythyr gan y Cadeirydd ynghylch Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

(Tudalennau 16 - 21)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.2 Ymateb gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'r llythyr 6 Hydref gan y Cadeirydd yn dilyn sesiwn graffu 17 Medi**

(Tudalennau 22 - 38)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.3 Gohebiaeth at Dr Chris Llewelyn, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â llifogydd**

(Tudalen 39)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.4 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU**

(Tudalennau 40 - 42)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.5 Ymateb gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'r llythyr gan y Cadeirydd ynghylch Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019**

(Tudalen 43)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.6 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â newidiadau i'r fframweithiau cyffredin sy'n dod o fewn portffolio'r Gweinidog**

(Tudalen 44)

Dogfennau atodol:

Llythyr

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(16.30)

Cyfarfod preifat (16.30-16.45)

6 Llifogydd: Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitem 2

7 Covid-19 a Threfniadau pontio'r Undeb Ewropeaidd: Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitem 3

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cyfoeth Naturiol Cymru:

# Ein hymateb i Storm Ciara a Storm Dennis

## Ein hadolygiad o stormydd Chwefror 2020

Ni fydd cadarnhad y Swyddfa Dywydd mai Chwefror 2020 oedd y mis Chwefror gwlypaf ers dechrau’r cofnodion yn syndod i'r cymunedau a ddioddefodd effeithiau dinistriol y glaw a'r llifogydd eithriadol bryd hynny.

Cyrhaeddodd Stormydd Ciara, Dennis a Jorge yn fuan wedi gaeaf gwlyb iawn, ac effeithiodd dyfroedd y llifogydd a ddaeth yn eu sgil ar 3,130 eiddo ledled Cymru.

Rydym yn cydymdeimlo â’r rhai sy'n dal i adfer ac ailadeiladu heddiw yn sgil yr effeithiau hynny.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn adolygu ein hymateb i’r stormydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ein gweithrediadau rheoli llifogydd ac edrych ar sut y gellid addasu'r arferion presennol o reoli ein ystâd tir i leihau'r perygl o lifogydd.

Cyhoeddwyd canlyniad yr adolygiadau hyn gennym ar 22 Hydref 2020:

**Llifogydd yng Nghymru ym mis Chwefror 2020: Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Llifogydd yng Nghymru ym mis Chwefror 2020: Ddata'r Digwyddiadau Llifogydd**
**Llifogydd yng Nghymru ym mis Chwefror 2020: Adolygiad Rheoli Digwyddiadau Llifogydd**
**Llifogydd yng Nghymru ym mis Chwefror 2020: Adroddiad Adolygu Rheoli Ein Ystâd Tir**
**Llifogydd yng Nghymru ym mis Chwefror 2020: Adroddiad Adfer Llifogydd**
**Mae ein Storymap** yn adrodd hanes y stormydd eithriadol ym mis Chwefror a chanlyniadau ein hadolygiadau

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

seneddNHAMG@senedd.cymru

2 Tachwedd 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref, yn gofyn am ragor o wybodaeth ar ôl i mi fynychu eich cyfarfod pwyllgor ar 8 Hydref i'ch helpu i graffu ar Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020. Amgaeaf ymatebion i'ch cwestiynau. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am fy nghysylltiadau â Llywodraethau eraill y DU a'r gwaith sydd wedi'i wneud gyda dogfennau'r fframwaith.

Roeddwn yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd ar 13 Hydref. Cymerais y cyfle i bwyso eto am gytundeb cysylltu ag ETS yr UE ac i gyflwyno'r achos dros fynd ar drywydd ETS annibynnol yn y DU yn hytrach na Threth Allyriadau Carbon. Gofynnais am gadarnhad pryd y byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud a sut y byddai Llywodraeth Cymru yn rhan o'r penderfyniad hwnnw. Ysgrifennais at Gweinidog Kwarteng ymhellach ynglŷn â hyn a materion eraill yn dilyn y cyfarfod, gan gynnwys yr angen i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth Datgarboneiddio Diwydiannol a'r angen i sicrhau cyllid teg i ddiwydiannau Cymru, gan gynnwys ailgylchu refeniw yr ETS. Amgaeaf y llythyr er gwybodaeth.

Gallaf hefyd gadarnhau fy mod wedi cytuno ar y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro a'r Concordat ar gyfer ETS y DU ac mae fy swyddogion yn pwyso am i'r gwaith fynd rhagddo'n gyflym drwy'r camau clirio terfynol er mwyn darparu'r dogfennau i chi cyn gynted â phosibl.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Gorchymyn Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020**

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i gwestiynau gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

**<u>Treth Allyriadau Carbon</u>**

1. **Yn ystod eich sesiwn dystiolaeth, fe wnaethoch egluro bod trafodaethau ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Treth Allyriadau Carbon yn digwydd ar lefel swyddogol. O ystyried arwyddocâd penderfyniad unochrog gan Lywodraeth y DU i gyflwyno Treth Allyriadau Carbon, pa drafodaethau sydd wedi digwydd ar lefel Weinidogol ar y mater hwn, a beth fu'r canlyniad?**

   Rwyf wedi pwyso’n gyson am drafodaeth ar y cyd rhwng y pedair Llywodraeth ar yr opsiynau polisi yn ymwneud â phrisio carbon, ac ystyried mai Gweinidogion Cymru ddylai benderfynu ar unrhyw benderfyniad i roi’r gorau i weithredu system masnachu allyriadau yng Nghymru. Rwyf wedi defnyddio pob cyfle i fynegi fy marn, megis yn ystod cyfarfodydd pedairochrog ar Gynllun Masnachu Allyriadau’r DU. Rwy’n teimlo’n rhwystredig nad yw Llywodraeth y DU wedi cynnal unrhyw drafodaethau sylweddol gyda mi na Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

   Gofynnwyd imi am fy marn ar lefel y gyfradd dreth fisoedd lawer yn ôl, wrth drafod senario heb gytundeb gydag un o gyn-Ysgrifenyddion y Trysorlys. Fodd bynnag, yn ystod ein trafodaeth ni ddarparwyd llawer o fanylion polisi a, beth bynnag, ni fwriwyd ymlaen â’r senario dim cytundeb, yn dilyn ymestyn y cyfnod pontio.

   Mae Ysgrifennydd y Trysorlys wedi dweud ei bod yn barod i wrando ar fy marn ar bolisi’r Dreth Allyriadau Carbon. Gan fod yr ymgynghoriad wedi’i gwblhau, byddaf yn pwyso am drosolwg ar y cyfle cyntaf o ymatebion rhanddeiliaid a syniadau sy’n dod i’r amlwg o ran dylunio’r polisi terfynol. Bwriadaf gynnwys fy nghyd-Weinidog yn y Cabinet, y Gweinidog dros Gyllid a’r Trefnydd, mewn unrhyw drafodaeth o’r fath, o gofio ei diddordeb mewn materion treth. Byddaf hefyd yn ceisio trafodaeth, yn cynnwys pob un o bedair gwlad y DU, am sail resymegol a rhinweddau cymharol trethiant o’i gymharu â chynllun masnachu, er mwyn dod i benderfyniad sy’n rhoi ystyriaeth deg i’n cyfrifoldebau dros bolisi hinsawdd. Yn olaf, os bwrir ymlaen â threth, byddwn yn disgwyl trafod rôl Cyfoeth Naturiol Cymru, a’r anghenion cysylltiedig am adnoddau, gan ei fod yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

2. **A allwch chi egluro a yw Llywodraeth y DU wedi dweud wrthych o dan ba amgylchiadau y byddai'n cyflwyno Treth Allyriadau Carbon yn hytrach na mynd ar drywydd System Masnachu Allyriadau annibynnol y DU, ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig?**

   Nac ydi, nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi'r sail ar gyfer cyflwyno Treth Allyriadau Carbon yn hytrach na Cynllun Masnachu Allyriadau i'r DU sy'n sefyll ar ei ben ei hun, na'r amgylchiadau lle byddai penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud, er gwaethaf cwestiynau niferus gan fy swyddogion.

3. **Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o effaith y Dreth Allyriadau Carbon arfaethedig ar osodiadau Cymru ac ar gynnydd Cymru o ran cyrraedd sero net erbyn 2050? Sut mae'r asesiad hwn yn cymharu â'r asesiad ar gyfer System Masnachu Allyriadau (ETS) annibynnol y DU?**

   Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau manylion terfynol y polisi eto. Mae'r asesiad canlynol yn seiliedig ar y cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

   Byddai tua 70 o safleoedd yng Nghymru o fewn cwmpas y Cynllun Masnachu Allyriadau, a byddai'r un safleoedd o fewn cwmpas treth, yn ôl y ddogfen ymgynghori.

   Fodd bynnag, nid yw'r dreth yn cynnig yr un sicrwydd o ran canlyniadau amgylcheddol â chynllun masnachu. Mae'r Dreth Allyriadau Carbon yn dibynnu ar lunwyr polisi i bennu cyfradd y dreth ar lefel briodol i sbarduno ymddygiad tra bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gosod cap a thrywydd sy'n unol â llwybr sero net cyson i greu terfyn absoliwt ar lefel yr allyriadau ar draws y boblogaeth fusnes.

   Un o brif anfanteision treth yw'r diffyg cymhellion ariannol a gynigir i safleoedd sy'n allyrru llai nag unrhyw derfyn a ganiateir yn ddigyfyngiad. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gynigion i fynd i'r afael â'r diffyg hwn drwy wobrwyo datgarboneiddio ar safleoedd prif gynllun. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn cynnig yr un hyblygrwydd a haelioni â chynllun masnachu, a fydd yn rhoi cyfle i safleoedd wneud penderfyniadau buddsoddi cynnar, bancio lwfansau dros ben a'u masnachu yn ôl eu gwerth llawn ar adeg o'u dewis nhw, er enghraifft pan fydd prisiau carbon yn uchel.

   Am y ddau brif reswm hyn, Cynllun Masnachu Allyriadau i'r DU sy'n sefyll ar ei ben ei hun sy'n cynnig yr opsiwn polisi prisio carbon gorau, yng Nghymru ac ar draws y DU yn gyffredinol.

4. **Beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol wrth lunio Treth Allyriadau Carbon? Sut y byddwch yn ceisio sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn, a bod Cymru yn cael ei chyfran deg o refeniw trethi?**

   Nid yw'r setliad datganoli'n gwarantu rôl ffurfiol i Weinidogion Cymru mewn Treth Allyriadau Carbon ac nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig deddfu ar gyfer unrhyw rôl o'r fath. Nid ydynt chwaith wedi cynnig dod i gytundeb gwleidyddol ar unrhyw gydweithredu, er enghraifft drwy Goncordat. Gallai cytundeb o'r fath nodi sut y byddai Gweinidogion Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisi a'n rôl fel noddwyr y rheoleiddiwr amgylcheddol yng Nghymru. Oni wneir cynnig o'r fath, a hyd nes y gwneir hynny, byddaf yn parhau i gynrychioli buddiannau Cymru ar bob cyfle, gan gynnwys ar fater dosbarthu refeniw treth.

5. **Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, fe wnaethoch ddweud bod penderfyniad gan Lywodraeth y DU i gyflwyno Treth Allyriadau Carbon yn mynd yn llwyr… yn erbyn egwyddorion y fframweithiau cyffredin yr ydym wedi cytuno arnynt yn ôl yn 2017. Beth yw goblygiadau Fframwaith Cyffredin ETS y DU a fethodd, o ran cyflwyno'r Rhaglen Fframweithiau Cyffredin ehangach?**

   Ymgymerais â'r gwaith ar y cyd i ddatblygu fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn ddidwyll ac rwyf o'r farn ei fod yn enghraifft o sut y gall y rhaglen gyflawni polisïau a gynhyrchir ar y cyd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae penderfyniad Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r polisi amgen yn amlwg yn tanseilio'r ymdrechion hyn.

   Hyd yn oed os mai'r dreth oedd yr unig opsiwn a oedd ar gael, mae'r diffyg ymgysylltu â Gweinidogion datganoledig yn gwrth-ddweud y cyd-destun y lluniwyd egwyddorion y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ynddo, yn arbennig "*Bydd cydweithio agos hefyd rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar faterion a gedwir yn ôl a materion a eithrir sy'n effeithio'n sylweddol ar gyfrifoldebau datganoledig*".

   O fewn fy mhortffolio i, Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yw'r unig faes fframwaith lle mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori'n gyhoeddus ar bolisi amgen gan ddefnyddio pwerau a gadwyd yn ôl. Felly, rwyf yn obeithiol mai eithriad yw hyn. Fodd bynnag, mae'n bwrw amheuaeth ar ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r Rhaglen Fframweithiau Cyffredin.

**Refeniw ocsiwn**

**6. A allwch chi amlinellu'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran deg o refeniw a gynhyrchir o gyfranogiad y DU yn ETS yr UE?**

Mae'r holl arian sy'n cael ei brosesu gan lwyfan y DU o dan Gam 3 Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei neilltuo ar gyfer datgarboneiddio ar hyn o bryd. Byddai Llywodraeth y DU yn cyfeirio at ei hadroddiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n dangos bod llawer mwy na 50% o'r arian a sicrhawyd drwy'r drefn hon yn cael ei dargedu at fesurau newid yn yr hinsawdd. Nid yw dosbarthiad daearyddol y cronfeydd hynny'n hysbys oherwydd y diffyg neilltuo ac, o ganlyniad, y diffyg tryloywder.

**7. A allwch chi gadarnhau mai creu Cronfa Datgarboneiddio Diwydiannol y DU yw'r dull a ffefrir gennych o hyd i ailgylchu refeniw a gynhyrchir gan ETS y DU? Os na, beth sydd wedi achosi ichi newid eich safbwynt, a beth yw'r dull newydd a ffefrir gennych?**

Cronfa Datgarboneiddio Diwydiannol y DU yw'r dull a ffafrir gennyf o hyd ar gyfer ailgylchu refeniw Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a hefyd i reoli unrhyw gyllid ychwanegol a allai fod yn ofynnol. Dylai'r gronfa hon gael ei gweinyddu ar y cyd gan bedair gwlad y DU, ac ystyried bod y cyfrifoldeb dros leihau allyriadau wedi'i ddatganoli. Amlinellaf fy rhesymeg isod.

Mae'n amlwg nad yw fformiwla Barnett yn gweithio i gyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau. Mae safleoedd yng Nghymru i gyfrif am oddeutu 10% o'r allyriadau a gipiwyd gan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae rhesymeg, felly, yn awgrymu y dylai safleoedd yng Nghymru dderbyn 10% o'r refeniw a gynhyrchir. Fodd bynnag, ni fydd y llwybr at ddatgarboneiddio yn dilyn fformiwla syml o'r fath.

Bydd rhai o'r safleoedd yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn rhatach i'w datgarboneiddio nag eraill. Felly, mae angen i'r refeniw lifo'n gymesur i'r sectorau lle mae'r angen mwyaf. Mae gan Gymru gyfran uchel o safleoedd sy'n anodd eu datgarboneiddio, sy'n golygu heriau technegol sylweddol a lle mae'r cyllid sydd ei angen i ddatgarboneiddio yn debygol o fod yn uwch na'r cyfartaledd.

Mae ystyriaethau amser hefyd. Ni fydd pob safle yn datgarboneiddio ar yr un pryd a bydd eu hanghenion cyllido yn amrywio dros amser. Yn y blynyddoedd i ddod, efallai y bydd angen i nifer fach o safleoedd yn y DU dderbyn y cyllid i gyd am nifer o flynyddoedd. Er enghraifft, er mwyn datgarboneiddio un o'n cynhyrchwyr dur, efallai y bydd angen llawer mwy na 10% o'r cyllid dros gyfnod o dair i bedair blynedd, dim ond ar gyfer un safle.

Am y rhesymau hyn - sef hyblygrwydd a'r angen i gydnabod gofynion gwahanol sectorau ar wahanol adegau - mae dadl mai busnesau Cymru sy'n cael y fargen orau drwy fod yn rhan o drefniant cyllido mwy.  Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am degwch a thryloywder yn y system, a'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy gyd-lywodraethu a gweinyddu.

**8. Pa drafodaethau, os o gwbl, a gawsoch gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyfran Cymru o refeniw ocsiwn sy'n cael ei ddychwelyd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru i ariannu ei blaenoriaethau gwariant?**

Nid ydym wedi trafod refeniw yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Byddai'n well gennym gael cronfa i'r DU sy'n dryloyw ac yn dosbarthu cyllid yn deg yn ôl yr angen. Fodd bynnag, os yw system sy'n cael ei rheoli yn Whitehall yn golygu bod y rhagolygon i fusnesau Cymru yn wael, efallai y bydd dadl dros gymryd y cyllid – gwell cael rhywfaint o gyllid yn dod i Gymru na dim o gwbl. Dyna pam mae'n hanfodol bod gennym lais nid yn unig wrth lunio'r egwyddor ond hefyd yn nyluniad a gweithrediad unrhyw gynllun ariannu.

**<u>Lliniaru gollyngiadau carbon</u>**

**9. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried cyflwyno dull o addasu ffiniau carbon fel dewis arall yn lle dyrannu lwfansau di-dâl i fynd i'r afael â'r risg o ollwng carbon. Beth yw eich barn am hyn? Pa ystyriaeth, os o gwbl, a roddwyd i sut y gallai dull o'r fath weithio yng nghyd-destun ETS annibynnol neu gysylltiedig y DU?**

Mae'r mecanwaith addasu ffiniau carbon yn gysyniad diddorol gan ei fod yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chystadleurwydd drwy roi pris carbon ar nwyddau sy'n dod i mewn.  Dylai hyn ddileu'r angen am iawndal, ar ffurf lwfansau am ddim, i ddiwydiannau yn yr Undeb Ewropeaidd a bydd yn ffynhonnell refeniw newydd.

Mae heriau technegol ynghlwm wrth fecanwaith o'r fath a bydd yn ddiddorol gweld sut y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau y gellir ei weithredu'n effeithiol ac yn deg.

Nid oes gennym ddigon o fanylion eto am y mecanwaith i ddeall yn llawn sut y bydd yn gweithredu, na sut y gallai weithio'n wahanol mewn Cynllun Masnachu Allyriadau i'r DU sy'n sefyll ar ei ben ei hun neu'n gysylltiedig.  Fodd bynnag, pe baem yn sefydlu cytundeb cysylltu, byddai ystyriaethau fel y rhain yn cael eu rheoli drwy'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/3550/20

Rt Hon Kwasi Kwarteng MP
Minister of State for Business, Energy and Clean Growth
Department for Business, Energy & Industrial Strategy
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

Minister.Kwarteng@beis.gov.uk

30 October 2020

Dear Kwasi

Further to the inaugural meeting of the Net Zero, Energy and Climate Change Inter-Ministerial Group (IMG) on 13 October, I would like to take this opportunity to emphasise some of the most important points relating to our discussion. The UK Government and Welsh Government are mutually dependent on one another as we both work to meet our emissions targets and I would like to thank you and your Officials for working with us to develop the closer inter-governmental cooperation we need in this area.

During the meeting, we discussed the UK Emissions Trading Scheme (ETS). I welcome the formal role of the IMG in governing the ETS. The early decisions on a revised cap and any changes to free allocations following the review will require strong co-operation between us to ensure future policy meets the needs of our individual nations and the UK as a whole.

We can only achieve global emissions reduction goals through international co-operation to establish a consistent carbon price. Our focus should be leading the development of a network of robust and effective, interconnected global carbon markets and linking the UK ETS to the large, established EU system is the logical first step. Achieving a successful ETS linking agreement with the EU is clearly in the best interests of all parties and I would appreciate your assurance you will continue to work towards a solution on this with the EU over the coming weeks. Our industry is already feeling the pressure of the COVID pandemic, on top of the potentially damaging impacts of trade disruption or border delays when we leave the EU. Linking the carbon markets is one area where there is an opportunity to lessen the blow.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Accordingly, even if an agreement is not reached with the EU, we should establish a standalone UK ETS, in line with the commitment all four Governments made when we agreed to a common framework in this policy area, with a view to future linking opportunities, with the EU system or other global markets. However, despite the progress made on the UK ETS legislation and operational preparedness, I understand the UK Government are continuing to progress two parallel options for a standalone scheme. As I have previously made clear, I am ready to participate in discussions on the relative merits of both options with you, though given we are on track to implement a UK ETS from 1 January, the option to fill a policy gap with a Carbon Emissions Tax (CET) will not be required. I am seeking clarity on the circumstances in which you might consider introducing a CET, rather than a standalone UK ETS, as well as when this decision will be taken. Given Wales' emissions profile is considerably different from the UK as a whole, including a relatively high proportion of emissions from Industry and Agriculture, I would expect to be involved in the decision as it relates to Wales.

I would also appreciate further details of the outcomes and proposed response to HM Treasury's important review into the costs and benefits of net-zero. The revenues raised through an ETS will be substantial and I am anxious Wales gets its fair share of this funding. Ongoing support from the UK Government is essential to maintain progress with decarbonisation of Welsh industry and I look forward to a discussion with you on the forthcoming Industrial Decarbonisation Strategy, which I understand your officials are arranging.

Funding will be equally important in other areas. In order to achieve net zero, we will need to invest in a range of renewable and low carbon technologies, in addition to off-shore wind. We therefore need a commitment from the UK Government that Wales will receive the funding it needs in areas like Carbon Capture Usage and Storage, and Hydrogen, which will support long term environmental and financial sustainability for industries based in Wales. We cannot afford to lose the skilled workforce and economic influence attached to these companies and their supply chains.

Across my portfolio, there are further interdependencies on which closer collaboration would deliver benefits to the UK and Welsh Governments. For example, if we are to collectively provide clarity and certainty for the sectors involved, we need to understand the UK Government's plans with regards the long awaited Energy White Paper. The same is true of your work on the UK's Net Zero Strategy and sixth carbon budget, on which I understand officials have had preliminary discussions.

Your letter of 2 October regarding the UK National Energy and Climate Plan (NECP) was helpful. We of course support the UK Government's immediate actions in submitting this plan in accordance with the Withdrawal Agreement. However, I am concerned about what will replace certain targets required by EU legislation, such as energy efficiency, after we leave the EU arrangements. I encourage the UK Government to be more ambitious in its targets for renewable energy. In Wales we already generate the equivalent of 50% of our electricity consumption from renewable sources. I expect the IMG to serve as a forum for discussing the topics and targets currently contained in the NECP.

Finally, I must emphasise our determination to embrace all opportunities to rebalance the UK's economy and to address long-standing inequalities in the context of both tackling and recovering from the coronavirus pandemic. I believe this is a shared ambition on which we can collaborate going forwards.

I am copying this letter to my counterparts in Scotland and Northern Ireland and to the Secretary of State for Wales

Regards



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Eitem 4.2

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Ein cyf/Our ref LG/0378/20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

seneddNHAMG@senedd.cymru

5 Tachwedd 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref.

Isod, rwyf wedi rhestru eich cwestiynau gyda'r atebion priodol.

**Lles Anifeiliaid**

**Gwerthu Cŵn Bach gan Drydydd Partion**

**1. Yn eich Datganiad Ysgrifenedig dyddiedig 5 Hydref, gwnaethoch gyhoeddi "y bydd gwaharddiad ar werthiant masnachol gan drydydd parti yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd y Senedd hon." A allwch roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch pryd y byddwch yn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth? A wnewch chi ymrwymo i ddarparu'r is-ddeddfwriaeth ddrafft i'r Pwyllgor ymlaen llaw er mwyn galluogi'r Pwyllgor i'w hystyried a darparu adborth arni?**

Roedd fy Natganiad Ysgrifenedig dyddiedig 5 Hydref yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad llawn a'r ymgynghoriad penodol a gynhaliwyd â phlant a phobl ifanc a oedd yn cefnogi'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti yng Nghymru, ac atodaf ddolen i'r Datganiad Ysgrifenedig a'r Crynodeb o'r Ymatebion er mwyn i chi allu cyfeirio atynt:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwerthu-cwn-chathod-bach-gan-drydydd-parti

https://llyw.cymru/gwahardd-gwerthu-cwn-chathod-bach-gan-drydydd-parti

Fel y nodais yn fy Natganiad Ysgrifenedig, creodd yr ymatebion a gafwyd gan blant a phobl ifanc, sef perchenogion anifeiliaid y dyfodol yng Nghymru, argraff arnaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y soniais wrth y Pwyllgor yn flaenorol, mae'r pwysau sydd wedi cael eu rhoi ar Lywodraeth Cymru, ac ar Gymru gyfan, o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi effeithio ar y broses o gyflwyno'r Rheoliadau hyn ar gyfer Cymru. Felly, rydym nawr yn gorfod gweithio'n gyflym i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno cyn diwedd tymor y Senedd y flwyddyn nesaf.Ni allaf roi'r union ddyddiad y caiff y Rheoliadau eu cyflwyno ar hyn o bryd.
Rwy'n falch iawn bod gennyf gefnogaeth y Pwyllgor hwn o ran y mater hwn a byddwn yn ystyried sut y gallwn eich helpu i hwyluso'r broses o graffu'n briodol ar y ddeddfwriaeth arfaethedig yn y dyfodol.

**<u>Cartrefi Cŵn a Chathod</u>**

**2. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn gwybodaeth sy'n peri pryder gan y Gymdeithas Cartrefi Cathod a Chŵn (ADCH) mewn perthynas â'r sector achub anifeiliaid yng Nghymru. Mewn ymateb i arolwg a gynhaliwyd ganddi ar effaith COVID-19, dim ond dau ymatebydd yng Nghymru a oedd yn sicr y byddent yn dal i weithredu ar ôl diwedd y flwyddyn hon. Yn yr un arolwg, nododd ymatebwyr yng Nghymru eu bod yn rhagweld gostyngiad o 80% mewn incwm ar gyfartaledd oherwydd COVID-19. O ystyried y tebygolrwydd y bydd yr effaith ar y sector yn parhau am beth amser, pa gymorth fydd ar gael i sicrhau y gall sefydliadau yng Nghymru barhau i weithredu?**

Mae fy swyddogion yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol bob amser wedi cadw cysylltiadau agos â'r sector lles anifeiliaid yng Nghymru drwy Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru a Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru a sefydlwyd yn fwy diweddar. Mae'n deg dweud i'r cysylltiadau hyn fbod yn ddefnyddiol iawn ar ddechrau pandemig COVID-19 – codwyd unrhyw broblemau neu bryderon drwy'r llwybr hwn ac aethpwyd i'r afael â nhw lle y bo'n bosibl. Cyflwynwyd yr arolygon a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Cartrefi Cathod a Chŵn, ac arolwg arall a oedd yn ymdrin yn benodol â chyfleusterau yng Nghymru, i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.

Mae'r broses barhaus o ddatblygu systemau cymorth a mireinio'r diffiniadau o grwpiau gwahanol wedi esblygu hefyd yn ystod y cyfnod hwn ac mae cydnabyddiaeth glir erbyn hyn o'r gwerth y mae'r trydydd sector lles anifeiliaid yn ei gynnig. O ganlyniad, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ddatganiad ysgrifenedig dyddiedig 6 Ebrill a oedd yn manylu ar y cymorth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r trydydd sector – Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector Llywodraeth Cymru.

Mae Cronfa Cadernid y Trydydd Sector yn rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau trydydd sector y mae angen help arnynt i oroesi'r argyfwng hwn – drwy dalu eu biliau a helpu gyda'u llif arian parod. Rydym hefyd wedi lansio Cronfa Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol yn ddiweddar ac mae manylion ynghylch sut i wneud cais ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi derbyn tri chais gan sefydliadau sy'n nodi eu bod yn sefydliadau lles anifeiliaid yn erbyn Cronfa Cadernid y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru, gwerth £100k. Talwyd cyfanswm o £90k i ddau o'r sefydliadau hyn.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na all pob sefydliad gael gafael ar yr arian hwn. Gall sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol gael help a chymorth ychwanegol, gan gynnwys cyngor ariannol a chymorth grant, drwy wefan Llywodraeth Cymru, neu gan aelodau Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Mae gwefan Cyllido Cymru yn cynnwys cyngor penodol ar y cyllid sydd ar gael o fannau eraill. Efallai y bydd un gronfa o ddiddordeb i grwpiau lleol â chyfansoddiad – mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn dosbarthu arian a gasglwyd drwy apêl yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol.

Mae Cronfa Cadernid Coronafeirws Cymru yn rhoi hyd at £5,000 o gymorth i grwpiau lleol sy'n cefnogi gwirfoddolwyr.

Byddwch yn ymwybodol o'r pecynnau cyllido eraill sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru (a amlinellir isod) ond mae'n bwysig nodi'r canlynol:

- Mae'r pecyn wedi'i gynllunio i fod yn fforddiadwy o fewn y cyllid sydd ar gael, a bu'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ynghylch y meini prawf cymhwysedd.
- Mae'r mesurau a gymerwyd gennym yn ychwanegol at y rhai a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU, sy'n golygu mai'r pecyn cymorth yng Nghymru yw'r un mwyaf cynhwysfawr a hael yn y DU.
- Byddwn hefyd yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i fod yn ymatebol ac yn gyfrifol drwy gefnogi'r rhai sy'n parhau i ddisgyn drwy'r bylchau ac nad ydynt eto wedi cael y cymorth sydd wir ei angen er mwyn sicrhau bod eu busnesau yn gallu goroesi'r pandemig hwn.

***Cam 3 o'r Gronfa Cadernid Economaidd***

Ar 19 Hydref, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru Gronfa Cadernid Economaidd o bron i £300m, sy'n cynnwys £150m ychwanegol i gefnogi busnesau y mae'r cyfnod atal byr wedi effeithio arnynt. Mae'r Gronfa hefyd yn cynnwys £20m yn ychwanegol at yr £80m a gyhoeddwyd eisoes er mwyn helpu busnesau i ddatblygu yn y tymor hwy, gyda £20m ohono wedi'i neilltuo ar gyfer twristiaeth a lletygarwch. Mae'r Gronfa ar gael i fusnesau o bob maint ac ym mhob sector yng Nghymru, gan gynnwys mentrau cymdeithasol ac elusennau, yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Bydd trydydd cam y Gronfa yn cynnig Grantiau Busnes i fusnesau cymwys:

- Gall micro fusnesau (sy'n cyflogi rhwng 1 a 9 o bobl) wneud cais am hyd at £10k ar yr amod eu bod yn cyfrannu eu buddsoddiad eu hunain o 10% o leiaf. Ar gyfer busnesau Twristiaeth a Lletygarwch a'r busnesau hynny sydd wedi gorfod cau o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, bydd disgresiwn i roi grantiau o hyd at 100%.
- Gall busnesau bach a chanolig (sy'n cyflogi rhwng 10 a 249 o bobl) wneud cais am hyd at £150k. Bydd angen i fusnesau bach (hyd at 50 o gyflogeion) gyfrannu eu buddsoddiad eu hunain o 10% o leiaf a bydd angen i fusnesau canolig (rhwng 50 a 249 o gyflogeion) gyfrannu o leiaf 20%. Ar gyfer busnesau Twristiaeth a Lletygarwch a'r busnesau hynny sydd wedi gorfod cau o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, bydd disgresiwn i roi grantiau o hyd at 100%.
- Gall busnesau mawr (sy'n cyflogi dros 250 o bobl) wneud cais am hyd at £200,000 ar yr amod eu bod yn cyfrannu eu buddsoddiad eu hunain o 50% o leiaf, er bod disgresiwn pellach ar gael i'r rhai y bu'n rhaid iddynt gau.
- Os yw'r prosiect yn creu swyddi newydd i bobl ifanc (o dan 25 oed), gall fod yn gymwys i gael lefel uwch o gymorth.

Mae trydydd cam y Gronfa hefyd yn cynnwys y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Lleol a gaiff ei ddarparu gan awdurdodau lleol i'r busnesau cymwys canlynol:

- Bydd pob busnes sy'n meddiannu eiddo â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai yn gymwys i gael taliad o £1,000.
- Bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sy'n wedi gorfod cau yn ystod y cyfnod atal byr ac sy'n meddiannu eiddo â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000 yn gymwys i gael taliad o £5,000.

- Bydd grant ychwanegol gwerth £2,000, a roddir yn ôl disgresiwn, ar gael i'r busnesau hynny sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai, ac sydd wedi gorfod cau yn ystod y cyfnod atal byr.
- Bydd grant pellach o £1,000, a roddir yn ôl disgresiwn, ar gael i fusnesau o dan yr un amodau, lle mae mesurau cyfnodau clo lleol wedi effeithio arnynt am 21 diwrnod neu fwy cyn dechrau'r cyfnod atal byr.

Bydd angen i fusnesau gael cymorth yn gyflym ac roedd y cronfeydd ar gael o wythnos gyntaf y cyfnod atal byr. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddyrannu mor gyflym â phosibl.

Dylai pob busnes sy'n gorfod cau allu manteisio ar y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth y DU drwy'r Cynllun Cadw Swyddi presennol neu'r Cynllun Cefnogi Swyddi estynedig newydd.

Dim ond Llywodraeth y DU sydd â'r grym ariannol i warantu lefelau'r cymorth incwm sydd ei angen ar weithwyr. Mae angen taliadau mwy hael arnom er mwyn helpu gweithwyr drwy'r argyfwng hwn.

**<u>Practisau Milfeddygol</u>**

**3. Hysbyswyd y Pwyllgor bod COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar bractisau milfeddygol ac nad ydynt wedi gallu cael gafael ar rywfaint o'r cymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau oherwydd natur unigryw eu gwaith. A allwch roi manylion i'r Pwyllgor am unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael â Chymdeithas Filfeddygol Prydain ynghylch effaith COVID-19 ar y sector? A allwch roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y grantiau a'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r sector?**

Ein nod fu ceisio sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan bractisau milfeddygol, nid yn unig i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid, ond hefyd iechyd y cyhoedd yn parhau i gael eu darparu yng Nghymru drwy'r cyfnod hwn. Mae practisau milfeddygol yn hanfodol nid yn unig er mwyn sicrhau bod ein hanifeiliaid yn cael y gofal iechyd y maent yn ei haeddu mewn cymdeithas waraidd, ond hefyd am eu bod yn cyflawni elfen hanfodol o waith Llywodraeth Cymru, yn absenoldeb "GIG i anifeiliaid", gan weithio o dan gontract â'r llywodraeth i gyflawni llawer o'r gwaith statudol o ganfod a rheoli clefydau. Maent hefyd yn gweithredu fel ‘llygaid a chlustiau’ yn y maes ac yn chwarae rôl hanfodol o ran gwyliadwriaeth clefydau anifeiliaid, sy'n gam cyntaf hanfodol wrth reoli clefydau heintus.

Felly, wrth reswm, mae cynnal neu atgyfnerthu ein rhwydwaith o bractisau milfeddygol yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n gwasanaethu anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, wedi bod yn brif flaenoriaeth i mi, ac i'n Prif Swyddog Milfeddygol eleni.

Mae'r Pwyllgor yn gywir i nodi bod practisau milfeddygol yn wahanol i lawer o fusnesau o ran y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus pwysig, fel y disgrifir uchod, a hefyd oherwydd dyletswydd reoliadol i ddarparu gwasanaeth y tu allan i oriau “24-7” ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â chlefydau anifeiliaid. Mae hyn yn golygu bod practisau yn mynd i fwy o gostau. Fodd bynnag, nid wyf yn cytuno bod y nodweddion unigryw hyn wedi atal practisau milfeddygol rhag cael gafael ar gymorth gan Lywodraeth Cymru.

Ers i fesurau gael eu rhoi ar waith i reoli'r coronafeirws ym mis Mawrth 2020, mae fy swyddogion, milfeddygon yn Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ac yn Is-adran Entrepreneuriaeth a Busnes Llywodraeth Cymru, wedi bod yn cydweithio'n agos ac wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru yn gyffredinol a changen Cymdeithas Milfeddygol Prydain yn benodol.

Rydym hefyd wedi bod mewn cysylltiad agos â Chymdeithas Frenhinol y Milfeddygon sydd wedi rhoi canllawiau i bractisau milfeddygol sy'n gweithio o dan y mesurau newydd ar gyfer reoli'r coronafeirws, yn ogystal â chynnal arolygon pwysig o effaith y pandemig ar wasanaethau a sefyllfa ariannol practisau milfeddygol. Oherwydd cyfraddau ymateb gwahanol, dim ond ar lefel y DU y mae'r wybodaeth hon wedi bod ar gael, ond credwn ei bod, ar y cyfan, yn gynrychioliadol o'r effeithiau ar bractisau yng Nghymru. Rydym wedi bod yn ystyriol o'r canfyddiadau hyn wrth i ni fynd ati i sôn wrth bractisau milfeddygol yng Nghymru am y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Rydym hefyd wedi manteisio i'r eithaf ar ein cydberthynas ddefnyddiol ac unigryw â dau Bartner Darparu Milfeddygol yng Nghymru (sydd rhyngddynt yn cynrychioli'r holl bractisau sy'n gwasanaethu anifeiliaid a ffermir) a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (sy'n cynnwys Llywydd presennol Cangen Cymru o Gymdeithas Filfeddygol Prydain) er mwyn deall yr heriau a wynebir gan bractisau milfeddygol a sicrhau eu bod yn deall y cymorth busnes a gynigir gan Lywodraeth Cymru ac yn gallu cael gafael arno.

Drwy ein cyswllt â'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru, rydym wedi ei gyfeirio, ar lafar ac yn ysgrifenedig, at y mesurau cymorth gwahanol sydd wedi bod ar gael yn ystod dau gam gyntaf y Gronfa Cadernid Economaidd ac, yn fwy diweddar, y trydydd cam. Credwn fod practisau milfeddygol bach a mawr wedi gallu cael gafael ar gymorth, os oeddent am wneud hynny.

O dan gamau 1 a 2 o'r Gronfa Cadernid Economaidd, mae cyfanswm o 22 o fusnesau sy'n darparu gwasanaethau milfeddygol wedi cael £357,830 o gymorth ariannol.

Yn ogystal, mae gwasanaeth Busnes Cymru yn parhau i gefnogi practisau milfeddygol a all drefnu sesiynau un-i-un dynodedig â Chynghorydd Busnes Cymru.
Veterinarysupport@businesswales.org.uk

**Pysgodfeydd**

**4. Rydych wedi sôn wrth y Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i fusnesau dyframaethu cymwys drwy'r cynllun Cymorth i Fusnesau Dyframaethu, a ddaeth i ben ar 21 Medi. A allwch roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y niferoedd sydd wedi manteisio ar y cynllun?**

Ni chafwyd unrhyw geisiadau pellach mewn perthynas â'r cynllun.

**5. Tynnodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru sylw'r Pwyllgor at "gyllid canlyniadol Barnett" y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael oherwydd dyraniadau i gronfa ymateb pysgodfeydd Llywodraeth y DU. A allwch gadarnhau faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael a faint o'r cyllid hwn a ddefnyddiwyd i gefnogi pysgodfeydd yng Nghymru?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario cyfanswm o £499,670 ar Grant Pysgodfeydd Cymru. Yn ôl Trysorlys EM, gallwn ddisgwyl gael £294,000 o gyllid o ganlyniad i Gronfa Caledi Pysgodfeydd COVID-19 a roddwyd ar waith yn Lloegr. Swm mynegol yw hwn ac

ni chaiff ei gadarnhau nes y bydd Llywodraeth y DU yn cynnal ei phroses Amcangyfrifon Atodol yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**6. A ydych yn bwriadu ymestyn Grant Pysgodfeydd Cymru? Pa gymorth ariannol pellach fydd ar gael er mwyn i bysgotwyr yng Nghymru ddelio ag effeithiau'r pandemig?**

Nid oes unrhyw gynlluniau i ymestyn Grant Pysgodfeydd Cymru ar hyn o bryd. Mae cymorth ariannol pellach ar gael i fusnesau pysgota cymwys yng Nghymru drwy drydydd cylch y Gronfa Cadernid Economaidd a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig.

**7. Soniodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru wrth y Pwyllgor am yr effaith ddifrifol y mae cau marchnadoedd allforio, fel Asia, wedi'i chael ar y sector. Os na chaiff y sefyllfa hon ei datrys yn fuan, pa gamau rydych yn bwriadu eu cymryd neu rydych wedi'u cymryd eisoes i sicrhau bod mwy o fwyd môr yn cael ei fwyta yn y wlad hon?**

Yn ystod camau cychwynnol y pandemig, cydweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos â phrosiect Menter a Busnes “Porth i'r Plât”, a ariennir gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, i hyrwyddo gwerthiannau uniongyrchol i'r defnyddiwr, ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae Porth i'r Plât yn hyrwyddo bwyd môr o Gymru ar lawer o sianeli cyfryngau cymdeithasol yn uniongyrchol i'r defnyddiwr. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdod Diwydiant y Pysgod Môr i roi cyhoeddusrwydd i'w hymgyrch ‘Caru Bwyd Môr’ a hyrwyddo bwyd môr o Gymru. Mae'r Awdurdod hefyd yn rhoi cyngor am ddim i bysgotwyr ar sut i fynd ati i werthu'n uniongyrchol.

**8. Mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod arian ar gael i fusnesau sy'n canolbwyntio ar brosesu a gwerthiannau uniongyrchol. A yw hyn yn rhywbeth rydych wedi'i ystyried ar gyfer Cymru?**

Agorodd cynllun costau safonol Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop am ail alwad am geisiadau ar 4 Mai 2020 er mwyn helpu busnesau i ychwanegu gwerth i'w dalfa eu hunain yn ystod pandemig COVID-19. Ymhlith yr eitemau cymwys roedd cyfarpar a fydd yn ychwanegu gwerth at ddalfa, gan gynnwys peiriannau iâ y gellir eu rhoi ar fwrdd cychod, peiriannau pecynnu dan wactod, potiau pysgod cregyn a pheiriannau mygu pysgod pen bwrdd. Pe bai Llywodraeth y DU yn ariannu cronfa gyfatebol yn lle'r un uchod, byddai cymorth ar gyfer prosesu a gwerthiannau uniongyrchol yn rhan o'r ystyriaeth bolisi ar gyfer y gronfa honno.

**9. Mae COVID-19 a'r penderfyniad i gau marchnadoedd allforio wedi cael effaith ddifrifol ar y sector. Mae'n wynebu ansicrwydd sylweddol gyda'r posibilrwydd y bydd Brexit yn digwydd heb gytundeb mewn ychydig fisoedd. A allwch roi manylion i'r Pwyllgor ar eich cynlluniau i gefnogi pysgodfeydd a busnesau dyframaethu os bydd Brexit heb gytundeb?**

Byddwn yn cysylltu ag allforwyr yn fuan i'w hatgoffa o'r hyn y gallant ei wneud nawr i baratoi ar gyfer diwedd Cyfnod Pontio'r UE. Bydd y llythyrau yn nodi gofynion allweddol, yn darparu dolenni i adnoddau ar-lein ac yn cynnig gwasanaeth ffonio'n ôl i gynnig cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
Bydd angen Tystysgrifau Dalfeydd y DU ar gyfer allforio pysgod gan y Gwasanaeth Allforio Pysgod ni waeth beth fydd canlyniad unrhyw negodiadau sy'n mynd rhagddynt. Er mwyn helpu busnesau i baratoi, rydym yn rhoi cyfle iddynt gofrestru ar gyfer y

gwasanaeth nawr os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Wedi hyn, byddwn yn dechrau cam profi ac ymgyfarwyddo ym mis Tachwedd lle y bydd allforwyr yn gallu dechrau defnyddio'r system ddigidol (mewn modd ‘dymi’). Bydd y system yn mynd yn fyw ar ddiwedd mis Rhagfyr.

Er mwyn sicrhau bod llai o anghysondeb rhwng y data a nodir ar Dystysgrif Dalfa a'r data a nodir mewn unrhyw ddogfennaeth pysgodfeydd arall (y caiff y data eu dilysu yn ei herbyn), mae gohebiaeth yn cael ei dosbarthu i bysgotwyr a'r rhai sy'n prynu ac yn gwerthu pysgod i'w hatgoffa am bwysigrwydd cofnodi data yn gywir a'u cyflwyno'n brydlon.

Er mwyn helpu allforwyr sy'n ei chael hi'n anodd gwned cais am dystysgrif dalfa, bydd cymorth ar gael gan ganolfannau galwadau. Bydd busnesau nad ydynt yn gallu cwblhau'r broses gofrestru ar-lein, neu y mae angen cymorth digidol arnynt, yn gallu cofrestru dros y ffôn o ganol mis Tachwedd.

Erbyn hyn, mae gwasanaeth ‘Export Health Certificate On-line’ yn fyw hefyd ar gyfer cofrestriadau ac anogir busnesau i gofrestru'n gynnar er mwyn paratoi.
Mae weminarau DEFRA ar barodrwydd masnachwyr yn cael ei hyrwyddo ymhlith pysgotwyr, dyframaethwyr ac allforwyr yng Nghymru. Mae'r weminarau hyn ar gael i'r diwydiant ym mhob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig a Dibyniaethau'r Goron. Mae cyflwyniadau a dogfennau cwestiynau cyffredin ar gael a bydd swyddogion yn rhannu'r rhain â'r rhai na allant fynychu'n bersonol.

Mae cymorth ariannol yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r effaith os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb masnach, yn enwedig yn erbyn cefndir pandemig COVID-19 sy'n esblygu.

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Canghellor ar 21 Hydref yn nodi'r hyn rydym yn ymofyn gan Lywodraeth y DU o ran materion cyllidol yr UE cyn i'r Adolygiad o Wariant gael ei gwblhau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ein bod yn cael ein cyllido'n briodol i gefnogi trosglwyddiad diffwdan wrth i'r DU adael yr UE.

**Bwyd a Diod**

**10. A allwch roi diweddariad i'r Pwyllgor ar drafodaethau rydych yn eu cael neu rydych yn bwriadu eu cael gyda swyddogion cyfatebol Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion i wneud newidiadau i'r Rhyddhad i Fragwyr Bach?**

Mae'r Rhyddhad i Fragwyr Bach, a gyflwynwyd yn 2002, yn rhoi gostyngiad oddi ar filiau tollau cwrw i fragdai annibynnol bach. Nid yw'n fater datganoledig ac nid ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar unrhyw newidiadau arfaethedig.

**11. Soniodd Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd wrth y Pwyllgor fod busnesau wedi gweld cynnydd cyflym yn y galw am gynnyrch a dyfir yng Nghymru ymhlith defnyddwyr yn ystod pandemig COVID-19. Dywedodd y Rhwydwaith Bwyd Agored wrthym fod cynnydd o 850% wedi'i weld yn y trosiant drwy ffryntiadau siopau'r Rhwydwaith ledled Cymru ers dechrau'r pandemig. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod modd troi cynnydd o'r fath yn newidiadau hirdymor yn y ffordd y mae pobl yn bwyta/yfed?**

Mae'r sector bwyd a diod wedi wynebu heriau nas gwelwyd o'r blaen ac mae wedi ymateb mewn sawl ffordd er mwyn sicrhau bod cynnyrch yn parhau i gyrraedd

cwsmeriaid. Mae pob manwerthwr, boed yn lleol neu'n genedlaethol, wedi chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod pobl wedi gallu cael bwyd, gan addasu'n gyflym drwy gyflwyno gwasanaethau dosbarthu ar-lein. Mae cynhyrchwyr hefyd wedi dechrau gwerthu cynnyrch yn uniongyrchol dros y rhyngrwyd. Mae'r ffaith bod amrywiaeth o fanwerthwyr a sianeli siopa ar gael yn gryfder ac yn cynnig dewis i ddefnyddwyr.
Yr hyn sy'n bwysig yw bod y cynnyrch o ansawdd da, yn fforddiadwy, yn dod o gadwyn gyflenwi sy'n gwella cynaliadwyedd a llesiant, ac yn ychwanegu gwerth at y gadwyn gyflenwi. Nid yw'r un model manwerthu yn well na'r lleill ohono'i hun.

Ar 30 Gorffennaf, ar y cyd â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, lansiais gyfres o gamau gweithredu a fyddai'n helpu'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru i ymadfer yn sgil effeithiau COVID-19.

Amlinellais gyfres o feysydd â blaenoriaeth a fyddai'n helpu'r sector, gan gynnwys:

- monitro gwybodaeth, data a thueddiadau'r farchnad er mwyn rhagweld newid a sefyllfa'r sector;
- darparu cyngor busnes ymarferol sy'n hanfodol er mwyn goroesi;
- darparu cyngor a chymorth i ddatblygu sianeli gwerthu ar-lein;
- buddsoddi'n benodol mewn pobl a thechnoleg er mwyn adeiladu cydnerthedd busnesau;
- cynnal presenoldeb masnach byd-eang drwy ymgysylltiad rhithwir ac yn ein digwyddiad allweddol, Blas Cymru, i'w gynnal ym mis Hydref 2021.

Bydd y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn rhoi ffocws byrdymor, gan dargedu cymorth ar gyfer y sector dros y misoedd nesaf tan yr haf nesaf. Byddant yn gamau pontio rhwng y strategaeth gyfredol, Tuag at Dwf Cynaliadwy, a ddaw i ben yn 2020, a'r strategaeth newydd sydd wrthi'n cael ei datblygu.

## <u>Ansawdd Aer</u>

**12. Gwnaethoch sôn wrth y Pwyllgor bod lefelau rhai llygryddion wedi gostwng yn sylweddol yn ystod deufis cyntaf y cyfyngiadau symud ond bod lefelau llygryddion eraill wedi cynyddu yn ôl pob golwg ar yr un pryd. A allwch roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y mater hwn, yn enwedig y meysydd hynny lle y gwelwyd cynnydd mewn llygryddion? A ellir dysgu unrhyw wersi o'r amrywiant hwn, yn eich barn chi?**

Mae asesiadau cynnar o ocsidau nitrogen (NO a NO2, neu NOx), deunydd gronynnol (PM10 a PM2.5) ac osôn ar lefel y ddaear (O3) yn dangos darlun cymhleth. Yn ystod deufis cyntaf y cyfyngiadau symud a ddechreuodd ym mis Mawrth, gostyngodd lefelau rhai llygryddion yn sylweddol (e.e. ocsidau nitrogen). Roedd hyn yn gyson â'r ffaith bod llai o draffig. Fodd bynnag, cynyddodd lefelau llygryddion eraill (e.e. deunydd gronynnol mân ac osôn).

Ymddengys bod y cysylltiadau rhwng crynodiadau atmosfferig a'r gweithgarwch allyriadau sylfaenol ar gyfer ocsidau nitrogen trefol a thrafnidiaeth ffordd yn gadarn, ond nid oes unrhyw ddata ar allyriadau a gweithgarwch ar gael ar hyn o bryd ar gyfer llygryddion a phrosesau eraill. Gwelwyd gostyngiad cymedrig o 36% mewn NO2, gyda'r gostyngiad mwyaf mewn lleoliadau wrth ymyl y ffordd. Gwelwyd newidiadau sylweddol yn ystod y dydd hefyd wrth i batrymau ac ymddygiadau teithio newid.

Gwelwyd cynnydd o 18% mewn osôn ar gyfartaledd. Y rheswm am y cynnydd mewn O3 trefol yw'r ffaith bod y gostyngiadau mewn allyriadau NO sylfaenol yn lleihau'r O3 a gollir drwy adweithio ag NO. Dangosir hyn gan y cynnydd lleol amlwg mewn osôn ar safleoedd traffig a threfol.

Arweiniodd amodau meteorolegol at lefelau uwch o ddeunydd gronynnol mân trawsffiniol (PM2.5) yn ystod y cyfyngiadau symud o gymharu â'r cyfartaledd mewn cyfnodau cyfatebol yn ystod blynyddoedd blaenorol. Arweiniodd hyn at grynodiadau cyffredinol llawer uwch o PM2.5 ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r asesiad yn awgrymu na chafwyd newid sylweddol yn y cyfraniad lleol at grynodiadau PM2.5, a bod rhai gostyngiadau bach iawn mewn lefelau PM10 uwchlaw cefndir yn debygol.

Mae'n debygol bod lefelau llygryddion aer wedi newid yn sylweddol mewn sawl sector ond, ac eithrio'r gostyngiad a welwyd mewn gweithgarwch trafnidiaeth, dim ond swm cyfyngedig o ddata sydd ar gael o hyd ar gyfer gweithgarwch ac allyriadau.

Dangosodd yr asesiad y cyfraniad sylweddol y mae trafnidiaeth ffordd yn ei wneud at lygredd aer lleol a rhoddodd rywfaint o syniad o'r cyfleoedd a'r rhwystrau sy'n wynebu datblygiadau polisi posibl yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i ymchwilio i effeithiau ymyriadau COVID-19 ar ansawdd aer wrth i ddata tymor hwy ddod ar gael. Bydd y canfyddiadau yn llywio'r broses o reoli llygredd aer ledled Cymru a datblygu polisïau, deddfwriaeth a thargedau yn y dyfodol.

Yn y sefyllfa hon sy'n newid yn gyflym, rhagwelir y bydd corff mawr o lenyddiaeth wyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid ar gael yn nes ymlaen yn 2020 a thu hwnt. Bydd hyn yn helpu i roi mwy o sicrwydd ynghylch y casgliadau y daethpwyd iddynt hyd yma a gall helpu i roi cipolwg pellach, gan gynnwys achosion sylfaenol y newidiadau a welwyd a'r goblygiadau tebygol ar gyfer amlygiad dynol ac amgylcheddol.

**13. A allwch roi diweddariad ar y canlynol:**

- **unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch cyfyngu ar werthu tân gwyllt a'r defnydd a wneir ohono,**
- **canlyniad y gwaith a wnaed gan swyddogion ar draws adrannau i nodi ble y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hymdrechion fwyaf er mwyn lleihau effaith negyddol tân gwyllt ar bobl ac anifeiliaid?**

Gweinidogion Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i wneud rheoliadau yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Tân Gwyllt 2003, a chaiff materion sy'n ymwneud â diogelwch a safonau cynnyrch eu cadw yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Yn gynharach eleni, ysgrifennais ar y cyd â'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol at y Gweinidog hwnnw yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) sy'n bennaf cyfrifol am reoliadau tân gwyllt. Yn ein llythyr, gwnaethom annog Llywodraeth y DU i ymateb yn gryf i argymhellion a wnaed mewn adroddiad diweddar gan Bwyllgor Deisebau Tŷ'r Cyffredin ar dân gwyllt. Ymhlith yr argymhellion a wnaed roedd cefnogi adolygiad tystiolaeth o effeithiau sŵn tân gwyllt ar anifeiliaid, ystyried rhoi pwerau cryfach i awdurdodau lleol a chydweithio ar draws gweinyddiaethau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Cynigiwyd y dylai Gweinidogion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gyfarfod i drafod tân gwyllt. Fodd bynnag, cyn y gallai hynny gael ei drefnu, penodwyd Gweinidog newydd i

gymryd lle'r Gweinidog BEIS cyfrifol fel rhan o'r broses o ad-drefnu'r cabinet a chafodd gwaith yn y maes hwn ei ohirio yn sgil pandemig COVID-19.

Erbyn hyn, mae ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad y Pwyllgor Deisebau wedi cael ei gyhoeddi:
https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmpetitions/242/24202.htm

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda swyddogion yn Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch BEIS ar sail yr ymrwymiadau a wnaed yn ymateb Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor Deisebau. Yn ddiweddar, aethant ati i ddosbarthu deunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog i bob awdurdod lleol yng Nghymru i'w defnyddio ar eu gwefannau a'u cyfryngau cymdeithasol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a hyrwyddo defnydd cyfrifol o dân gwyllt. https://www.gov.uk/guidance/consumer-safety-awareness-campaigns-materials#fireworks-campaign

Rwy'n ymwybodol iawn o farn nifer mawr o aelodau'r cyhoedd ar dân gwyllt swnllyd a'i effaith ar fywyd gwyllt, anifeiliaid anwes ac anifeiliaid a ffermir. Mae un o'r dogfennau yn ymdrin yn benodol â chadw pobl ac anifeiliaid sydd gerllaw yn ddiogel.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/927386/6.6888_BEIS_OPSS_Fireworks_campaign_2020_Animal_leaflet_V5_PRINT.pdf.

Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a'r Gweinyddiaethau eraill i sicrhau bod y neges hon yn cael ei rhannu ledled Cymru.

Gyda'r cyfyngiadau ar ddigwyddiadau ac aelwydydd yn cymysgu, bydd hwn yn dymor tân gwyllt gwahanol iawn. Bydd fy swyddogion yn gwahodd awdurdodau lleol ledled Cymru i rannu eu profiadau er mwyn nodi sut mae cwynion ynghylch defnydd preifat o dân gwyllt yn 2020 yn cymharu â blynyddoedd blaenorol. Gall unrhyw ymddygiad newydd a welir yn sgil y pandemig gryfhau neu wanhau'r achos dros osod unrhyw gyfyngiadau yn y dyfodol, ac edrychaf ymlaen at glywed barn swyddogion rheng flaen dros y misoedd nesaf.

**Adferiad Gwyrdd/Glas a Newid yn yr Hinsawdd**

**14. A wnewch chi ymrwymo i sicrhau bod materion morol yn rhan ganolog o unrhyw adferiad "gwyrdd"? A allwch roi enghreifftiau o sut y caiff hyn ei gyflawni?**

Mae materion morol yn cael eu hystyried fel rhan o'r adferiad gwyrdd drwy fewnbwn cydgysylltiedig a roddir i'n Tasglu Adferiad Gwyrdd gan Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol. Mae Cadeirydd y Grŵp, sy'n aelod o'r Tasglu Adferiad Gwyrdd, wedi bod yn cydweithio ag aelodau'r grŵp cynghori sy'n ymrwymedig i gynllunio a chefnogi'r broses o gyflwyno pecyn ysgogi adferiad glas integredig.

**15. Rydych wedi sôn wrth y Pwyllgor eich bod yn aros am adroddiad ar y gwaith y mae Syr David Henshaw wedi bod yn ei arwain ar yr adferiad gwyrdd/glas. A wnewch chi ddiweddaru'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl?**

Rwyf wedi cael gwybod bod disgwyl i adroddiad Syr David Henshaw ar yr Adferiad Gwyrdd gael ei gyhoeddi'n fuan. Rhoddaf ddiweddariad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwaith ar ôl i mi ystyried yr adroddiad a'i argymhellion.

**Amaethyddiaeth a Diogelwch Bwyd**

**16. Gwnaethoch sôn wrth y Pwyllgor bod grŵp rhanddeiliaid cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth yr UE wedi cyfarfod am y tro cyntaf yn ddiweddar. A allwch roi rhagor o fanylion am ddiben y grŵp a'i aelodau?**

Yn dilyn llwyddiant y Grŵp Cydnerthedd Amaethyddol ac ymgynghoriad byr â rhanddeiliaid (o fewn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi), mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mynd ati i sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Cadwyni Cyflenwi Bwyd-amaeth Pontio'r UE.

Bydd y Grŵp, a fydd yn gweithio fel "braich weithredol" i'r Grŵp Bord Gron Gweinidogol ac yn defnyddio'r un fformat a weithiodd mor dda ar gyfer COVID, yn trafod canlyniadau gadael yr UE ac yn nodi atebion posibl.

Nod y Grŵp yw ymgysylltu â sefydliadau allweddol er mwyn cynllunio cyfeiriad strategol ar gyfer Cymru wrth iddi adael yr UE, yn enwedig ei diwydiant amaethyddol; llywio cyfeiriad a sicrhau bod y sefydliadau gwahanol yn meddwl ac yn cyfathrebu mewn ffordd gyson; cefnogi'r broses o gyflawni agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth Cymru wrth iddi adael yr UE, gyda golwg ar ail-lunio'r strategaeth ar gyfer ffermio yng Nghymru.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod hyd yma a chynhelir un arall ar 6 Tachwedd.

**17. Dywedodd Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd wrth y Pwyllgor fod Cymru yn dibynnu ar fewnforion ar gyfer 95% o'i ffrwythau a'i llysiau ffres ar hyn o bryd. Pa waith paratoadol sydd wedi cael ei wneud i sicrhau, os bydd Brexit heb gytundeb, y gall cynhyrchwyr bwyd domestig gamu i mewn i lenwi unrhyw fylchau yn y gadwyn cyflenwi bwyd? A wnewch chi ymrwymo i gyflwyno cynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o fwyd a gynhyrchir yn ddomestig os daw'n fwy anodd i fewnforio bwyd?**

Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol yn DEFRA ar 14 Hydref ynghylch diwedd y cyfnod pontio, a'i effaith bosibl ar gyflenwadau bwyd. Er bod bwyd yn fater datganoledig, atgoffais yr Ysgrifennydd Gwladol bod y ffordd y mae cadwyni cyflenwi yn gweithio ac felly cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael â risgiau i gyflenwadau bwyd, yn golygu bod ein ffiniau mewnol ar y cyfan yn llai pwysig na ffactorau a phenderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar ffin allanol y DU a'r fasnach rhyngddi â'r byd.

Mae'r broses o gynllunio ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn mynd rhagddi. Felly hefyd y gwaith o ymgysylltu â'r sector yng Nghymru a gweithgarwch ymgysylltu drwy strwythurau cenedlaethol fel Fforwm y Diwydiant Cydnerthedd Bwyd, y Pwyllgor Cyswllt ar Argyfyngau Cadwyni Cyflenwi a Fforwm Manwerthu'r DU.

Cafodd cadwyn cyflenwi bwyd a diod eu profi mewn ffyrdd digynsail gan bandemig COVID-19, a phrofwyd eu bod yn gydnerth. Llwyddodd cynhyrchwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr i addasu'n gyflym i'r galw newidiol, gan gymryd camau i ddod o hyd i ddewisiadau amgen lle y bo angen. Bydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu'r sector i ymadfer yn sgil effeithiau'r pandemig, ynghyd â'n gweledigaeth strategol a'n cenhadaeth, yn gymorth i'r sector os bydd unrhyw amharu ar y gadwyn cyflenwi bwyd ar ddiwedd y cyfnod pontio.

**18. Sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y ffordd rydych yn mynd ati i lunio polisïau bwyd yng Nghymru? Rhowch enghreifftiau.**

Yn sgil y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei chapasiti i gasglu gwybodaeth er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu polisïau a rhoi cymorth i fusnesau. Mae gweithgarwch ymgysylltu eang â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, rhwydweithiau clwstwr a chyswllt â chwmnïau unigol drwy reolwyr datblygu busnes. Rydym wedi cyhoeddi Cynllun Adfer sy'n cynnwys 11 o bwyntiau ffocws i gefnogi'r diwydiant yn ystod y flwyddyn nesaf heb golli golwg ar uchelgeisiau strategol tymor hwy.

O ran gwaith hyrwyddol, lansiwyd ymgyrch #CaruCymruCaruBlas dros fisoedd yr haf. Roedd yr ymgyrch farchnata ddigidol hon, a oedd yn annog siopwyr i ddangos eu 'cariad' tuag at gynnyrch y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, yn ganlyniad i gydweithio ar draws y diwydiant a rhwng clystyrau, gan gynnwys Cywain, NFU Cymru, HCC, Tyfu Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Ymgyrch dridiau ydoedd a gynhaliwyd yn ystod misoedd yr haf. Cymerodd dros 110 o gynhyrchwyr ran ac amcangyfrifwyd ei bod wedi cyrraedd 1,500,000 o ddefnyddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgymryd â mwy o weithgarwch cyfathrebu i hyrwyddo'r sector. Er enghraifft, cynhaliais weminar ar y cyd â'r Bwrdd i lansio'r Cynllun Adfer, ac rydym yn cyhoeddi cylchlythyrau rheolaidd.

Er mai adferiad byrdymor yw'r ffocws ar hyn o bryd, ni fyddwn yn colli golwg ar ein huchelgeisiau hirdymor. Fel y gwŷr y Pwyllgor, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn 2019 ar strategaeth newydd ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru, a chafodd y weledigaeth a'r genhadaeth arfaethedig groeso mawr. Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn parhau'n ymrwymedig i'r uchelgeisiau hirdymor hyn.

Pan fydd yr amser yn iawn, bydd y llywodraeth yn cymeradwyo'r cynigion ac yn eu cyhoeddi.

Y camau gweithredu byrdymor a thymor canolig a ddisgrifir yng Nghynllun Adfer COVID-19 yw'r camau cyntaf ar y llwybr i'r weledigaeth a'r genhadaeth a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad.

**19. A allwch roi diweddariad i'r Pwyllgor ar bolisïau Llywodraeth Cymru ar randiroedd?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ddarparu Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol) gynnal ymarfer casglu data er mwyn:

- nodi nifer y rhandiroedd a'r gofodau tyfu cymunedol, eu dosbarthiad a hyd y rhestrau aros;
- nodi'r prif rwystrau i gynyddu'r cyflenwad;
- mapio'r ddarpariaeth rhandiroedd yn erbyn y galw amdanynt.

Yn ôl y gwaith ymchwil, roedd amrywiaeth eang o ran y ddarpariaeth ond roedd y mwyafrif o'r safleoedd yn llawn ac roedd gan lawer ohonynt restrau aros hir. Cynhaliwyd arolwg cyflym dilynol ym mis Medi i nodi effaith COVID-19 ar y galw am randiroedd. Nodwyd bod cynnydd sylweddol yn y galw amdanynt. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynnal treialon peilot mewn ardaloedd Awdurdod Lleol lle mae mwy o alw heb ei fodloni, gan helpu i sicrhau bod mwy o randiroedd a chynlluniau tyfu cymunedol eraill ar gael.

Mae prosiect arall, Orchard for Wales, yn gweinyddu cronfeydd cyfalaf i gefnogi prosiectau tyfu cymunedol ledled Cymru. Ei nod yw cynyddu nifer y coed ffrwythau a'r llwyni a blennir, gan gyfrannu at y carbon a ddelir, gwella bioamrywiaeth a chynhyrchu ffynhonnell bwyd iach.

Hefyd eleni, lansiodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen ‘Lleoedd Lleol ar gyfer Natur’ a oedd yn canolbwyntio ar 'fesurau cymedrol' mewn ardaloedd o amddifadedd, ardaloedd trefol ac ardaloedd o gwmpas trefi ac ardaloedd lle na cheir fawr ddim mynediad i natur, os o gwbl. Nod y rhaglen yw atal a gwyrdroi'r dirywiad mewn natur ac mae'n cynnwys cyflwyno prosiectau i gynyddu gweithgarwch tyfu cymunedol.

Ochr yn ochr â'r prosiectau hyn, mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi adolygu'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 ar gyfer Rhandiroedd Traddodiadol a Phrosiectau a Arweinir gan y Gymuned ac wedi llunio canllawiau wedi'u diweddaru. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u paratoi i'w cyhoeddi ar hyn o bryd, a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn dilyn ymgynghoriad yn 2019 ar gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer rhandiroedd, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n llunio deddfwriaeth newydd a fydd yn caniatáu gosod siediau a/neu dai gwydr ar randiroedd, yn amodol ar feini prawf maint. Y nod yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn ystod y cyfnod presennol.

**20. Gwnaethoch sôn wrth y Pwyllgor bod COVID-19 wedi dangos i chi faint yn fwy o drafodaethau y dylech fod yn eu cael gydag archfarchnadoedd. A allwch roi diweddariad ar y cyfarfodydd a drefnwyd â chynrychiolwyr archfarchnadoedd hyd at y Nadolig 2020?**

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, rwyf wedi bod yn cyfarfod â manwerthwyr yn fisol. Rwy'n bwriadu parhau i gynnal y cyfarfodydd hyn o leiaf unwaith y mis am y tro ac, os bydd materion penodol yn codi, gellir cynnal mwy o gyfarfodydd os bydd angen.

Rwyf hefyd wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol yn DEFRA ailgychwyn y cyfarfod a gynhaliwyd â manwerthwyr ledled y DU pan roedd y pandemig ar ei anterth yn gynharach eleni.

Mae fy swyddogion yn mynychu nifer o gyfarfodydd wythnosol neu bythefnosol fel Fforwm y Diwydiant Cydnerthedd Bwyd, Pwyllgor Cyswllt ar Argyfyngau Cadwyni Cyflenwi a Fforwm Manwerthu'r DU, ac rwy'n cael diweddariadau rheolaidd ganddynt.

**Llygredd Plastig a Gadael Sbwriel**

**21. Dywedodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol wrthym ei bod yn disgwyl i lefelau llygredd ar draethau yng Nghymru gynyddu dros fisoedd yr haf o ystyried mai dim ond rhai cyfleoedd sydd gan sefydliadau fel ei sefydliad nhw erbyn hyn i ddefnyddio gwirfoddolwyr ymroddedig i lanhau traethau, ynghyd â'r cynnydd cyffredinol sy'n debygol o gael ei weld mewn gwyliau arfordirol yn y DU. Pa asesiad rydych wedi'i wneud o unrhyw gynnydd mewn llygredd morol o ganlyniad i hyn?**

Ers dechrau'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith o randdeiliaid, fel y Bartneriaeth Moroedd Glân, i drafod materion posibl fel hyn.

Erys iechyd y cyhoedd yn flaenoriaeth yng Nghymru a than yn ddiweddar (y cyfnod atal byr cyfredol) mae'r cyngor ar gasglu sbwriel ar draethau wedi newid. Y cyngor a roddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i grwpiau sy'n glanhau traethau oedd bod modd iddynt ailafael yn eu gweithgareddau ond y dylent gadw at ganllawiau llym COVID-19 fel cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo yn rheolaidd a pheidio â chynnwys mwy o bobl nag a ganiateir mewn grwpiau.

Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn parhau i weithio gyda grwpiau gwirfoddol sy'n casglu sbwriel oddi ar draethau. Fodd bynnag, maent yn awyddus i sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cadw mor lleol â phosibl, gan annog pobl i beidio â theithio pellteroedd hir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal dwy ymgyrch wahanol ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth ac atgoffa'r rhai sy'n ymweld â Chymru i waredu eu sbwriel mewn ffordd gyfrifol – ar ein traethau ac mewn cyrchfannau mewndirol fel ein Parciau Cenedlaethol.

Er bod rhai arwyddion cynnar yn awgrymu y gall fod cynnydd mewn rhai eitemau o sbwriel, fel cyfarpar diogelu personol, nid yw hyn yn systemig ledled Cymru ac mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i nodi effaith COVID-19 ar ein traethau.

**Materion Eraill**

**22. Mae sawl un o randdeiliaid y Pwyllgor wedi cael budd o Gronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r sector am unrhyw gymorth ariannol pellach y bydd ei angen unwaith y daw trefniadau ffyrlo i ben?**

**23. Yn ôl yr hyn a ddywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru wrth y Pwyllgor, bydd llawer o elfennau o agenda Twf Amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar waith elusennau, ac mae llawer o brosiectau cadwraeth a chymunedol yn bartneriaethau rhwng asiantaethau'r Llywodraeth a chymdeithas sifil. Aeth ymlaen i ddweud y bydd colledion ariannol parhaus yn llesteirio gallu elusennau i gyflawni gwaith gwella cadwraeth a seilwaith hanfodol. Pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi i'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y broses o gyflawni polisïau Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd?**

Rwy'n ymwybodol iawn o'r effaith y mae'r argyfwng hwn yn ei chael ar elusennau a'r trydydd sector ledled Cymru. Rydym yn cydnabod y gwaith pwysig y mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn ei wneud dros yr amgylchedd a'r heriau sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Rwyf wedi cyfarfod â Cyswllt Amgylchedd Cymru a chyrff anllywodraethol amgylcheddol eraill yn uniongyrchol, ac maent yn rhan o'm grŵp bord gron Gweinidogol sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i mi.

Mae fy swyddogion wedi bod yn cyfarfod â chyrff anllywodraethol amgylcheddol a phartneriaid eraill yn rheolaidd er mwyn deall y risg y gallai COVID ei pheri wrth i ni geisio cyflawni ein huchelgeisiau i atal a gwyrdroi colledion o ran bioamrywiaeth a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ymhlith y camau a gymerwyd gennyf i liniaru'r risg hon mae cyflwyno cynlluniau grant, fel adfer safleoedd Natura 2000, sydd wedi galluogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol a phartneriaid eraill i weithredu unwaith eto ac ymgymryd â gwaith cadwraeth hanfodol a gynlluniwyd. Rwyf hefyd wedi rhoi arian ychwanegol i Cyfoeth Naturiol Cymru i helpu cyrff anllywodraethol amgylcheddol i ailagor y safleoedd y bu'n rhaid eu cau ar ôl cyfyngiadau symud cychwynnol COVID. Mae rhaglenni parhaus, fel Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, hefyd wedi galluogi cyrff anllywodraethol amgylcheddol a phartneriaid eraill i ddatblygu mannau gwyrdd ar gyfer cymunedau ledled Cymru.

Gall cyrff anllywodraethol amgylcheddol hefyd gynnig y pecynnau cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Cronfa Cadernid y Trydydd Sector. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi darparu cymorth ariannol uniongyrchol i dalu biliau a helpu gyda llif arian parod. Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda chyrff annllywodraethol amgylcheddol i feithrin gallu a chydnerthedd yn y sector, lliniaru'r risg i'n bioamrywiaeth a'n huchelgeisiau o ran newid yn yr hinsawdd, a sicrhau bod gennym bartneriaid cyflawni cryf.

**Fframweithiau Cyffredin**

**24. A allwch roi diweddariad i'r Pwyllgor ar ddatblygu Fframweithiau Cyffredin sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys pryd y bydd fframweithiau dros dro ar gael er mwyn i'r Senedd graffu arnynt?**

Ysgrifennais atoch ar 13 Hydref 2020 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar fframweithiau cyffredin yn fy mhortffolio, gan gynnwys canlyniad yr ymarfer ailddosbarthu diweddar a gynhaliwyd gan bedair llywodraeth y DU.

Roedd fy llythyr yn nodi'r trefniadau ar gyfer datblygu'r fframweithiau yn unol â'r cynllun cyflawni diwygiedig. Tynnwyd sylw at y nod sef y bydd pob fframwaith, erbyn diwedd 2020, wedi sicrhau o leiaf Gytundeb Amlinellol Fframwaith sydd wedi derbyn cadarnhad dros dro gan Weinidogion ac sy'n weithredol ar ffurf ddrafft. Fframweithiau dros dro fydd y rhan fwyaf o'r fframweithiau yn fy mhortffolio ac mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob maes.

Disgwylir y bydd y priod ddeddfwrfeydd yn craffu'n llawn ar y fframweithiau dros dro yn ystod 2021.

Fel y gwyddoch, mae Fframwaith y Cynllun Masnachu Allyriadau yn cael ei gyflwyno fel fframwaith llawn cyn diwedd 2020 ac felly mae'r Senedd yn craffu arno eisoes.

**25. A ydych yn fodlon ar y broses sydd ar waith ar gyfer datblygu a chymeradwyo Fframweithiau Cyffredin? A oes gennych unrhyw bryderon penodol mewn perthynas ag unrhyw un o'r fframweithiau o fewn eich cylch gwaith?**

Rwy'n fodlon ar y broses sydd ar waith ar gyfer datblygu a chymeradwyo fframweithiau yn fy mhortffolio. Er bod yr amserlen yn heriol iawn o hyd, yn enwedig o ystyried effaith COVID-19 ar adnoddau, mae swyddogion ym mhob llywodraeth yn parhau i gydweithio ar fframweithiau yn unol â'r cynllun cyflawni diwygiedig.

**<u>Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol</u>**

**26. A allwch roi diweddariad i'r Pwyllgor ar drafodaethau a gafwyd â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod Bil Amgylchedd Llywodraeth y DU yn cael ei ddiwygio i wneud darpariaeth ar gyfer cydweithio rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol cyfatebol?**

Mae trafodaethau â DEFRA dros yr haf ynghylch y diwygiad arfaethedig i atgyfnerthu'r ddyletswydd yng nghymal 24(4) i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymgynghori â chyrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig, wedi bod yn gynhyrchiol a byddwch yn rhoi adborth i'r Senedd cyn y drafodaeth ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

**27. A allwch gadarnhau y bydd mesurau llywodraethu amgylcheddol interim ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu?**

Byddant. Rydym wedi blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu'r system gwynion, sy'n mynd rhagddo'n dda, a chaiff cyfweliadau i benodi'r asesydd annibynnol eu cynnal ganol mis Tachwedd.

**28. Pa drefniadau a roddir ar waith i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r weithdrefn gwyno dros dro?**

Mae tudalennau gwe yn cael eu datblygu er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y mesurau dros dro. Caiff datganiad i'r wasg ei gyhoeddi hefyd pan fydd y trefniadau newydd yn weithredol, ynghyd â negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.
Byddwn hefyd yn parhau i rannu gwybodaeth am y trefniadau dros dro drwy ein rhwydweithiau rhanddeiliaid presennol ac, fel y gwnaethpwyd wrth hysbysebu ar gyfer rôl asesydd annibynnol, byddwn yn defnyddio eu sianeli cyfathrebu i gyrraedd cynulleidfaoedd perthnasol.

**29. Rydych wedi sôn wrth y Pwyllgor yn flaenorol am eich bwriad i roi trefniadau ar waith er mwyn asesu pob cwyn yn annibynnol. Pwy fydd yn gyfrifol am gynnal yr asesiadau hyn?**

Bydd Asesydd Annibynnol yn gyfrifol am yr asesiadau. Mae'r broses benodi yn mynd rhagddi a chaiff y cyfweliadau eu cynnal ganol mis Tachwedd.

**30. A allwch gadarnhau a ydych yn bwriadu cyhoeddi cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol tymor hwy, a phryd y byddech yn gwneud hynny?**

Caiff adrodddiad y Grŵp Gorchwyl Llywodraethu Amgylcheddol a'm hymateb innau eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
—
Welsh Parliament
**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee**

Dr Chris Llewellyn,
Prif Weithredwr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

23 Hydref 2020

Annwyl Dr Llewellyn,

Diolch am gyflwyo tystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i'w helpu i graffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i lifogydd yng Nghymru, a hynny yn y sesiwn a gynhaliwyd ar **8 Hydref 2020**.

Yn dilyn y sesiwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at awdurdodau lleol i ofyn am wybodaeth am y gwaith y maent yn ymgymryd ag ef, neu'r gwaith y maent y bwriadu ymgymryd ag ef, i sicrhau bod unrhyw gwlfert ar dir y maent yn berchen arno'n cael ei glirio i helpu i leihau'r perygl y bydd llifogydd yn ystod misoedd y gaeaf.

Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech gydgysylltu ymateb ar ran awdurdodau lleol ac anfon hwn ymlaen at y Pwyllgor cyn gynted â phosibl, ac erbyn dydd Gwener 20 Tachwedd fan bellaf.

Diolch ymlaen llaw i chi am eich cymorth.

Yn gywir,



**Mike Hedges AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

# Eitem 4.4

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/3455/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

30 Hydref 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Hydref ynghylch Bil Pysgodfeydd y DU. Rwy'n falch i'r Senedd allu rhoi ei chydsyniad i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 6 Hydref. Trafodais y pwyntiau rydych yn eu codi yn eich llythyr yn ystod y ddadl, ond cytunais y byddwn yn anfon llythyr yn eu cylch.

Mae pwynt 1 eich llythyr yn gofyn imi esbonio pam oedd angen diwygiadau 144, 145 ac 146 i gymal 39, cymal 49 ac atodlen 8, yn eu tro. Cawsant eu gwneud ar gais Gweinidogion Cymru yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â chwmpas pwerau rheoleiddio Gweinidogion Cymru o dan Atodlen 8. Diffinnir pwerau Gweinidogion Cymru o dan Atodlen 8 trwy gyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Roedd y geiriad blaenorol yn cyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru gan ddiystyru unrhyw ddarpariaeth sy'n dibynnu ar gydsyniad Gweinidog y DU i fod o fewn ei chymhwysedd. Mae hynny'n golygu felly ei bod y tu allan i gymhwysedd Senedd Cymru. Pe na bai'r diwygiadau hyn wedi'u gwneud, byddai'r darpariaethau hyn yn y Bil wedi lleihau cwmpas pŵer pwysig o eiddo Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ac yn estyn cwmpas pŵer cyfatebol yr Ysgrifennydd Gwladol i faes polisi datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae pwynt 2 yn gofyn am fwy o wybodaeth am y diwygiadau a gyflwynwyd ac y cytunwyd arnynt yn y Cam Adrodd. Ystyriaf bob un yn ei dro:

**2. a)** Y bwriad oedd bod Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (a siarad yn fras) yn ymdrin â phob deddfwriaeth a wneir gan y sefydliadau datganoledig yng Nghymru. Heb ei diwygio, ni fyddai'r Ddeddf yn gymwys i RhSau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r Bil Pysgodfeydd yn diwygio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i ddarparu ei bod yn gymwys i RhSau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y Ddeddf. Bydd estyn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i gynnwys materion pysgodfeydd ym mharth Cymru yn ei gyfanrwydd yn estyn yn awtomatig Rannau 1 a 2 Deddf 2019 i gynnwys Deddfau Senedd Cymru a wnaed o dan y cymhwysedd ehangach (gan eu bod yn gymwys i holl ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru).

**2. b)** O dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Gweinidogion Cymru ddod i drefniant ag awdurdod perthnasol fel bod swyddogaethau'r naill yn gallu cael eu harfer gan y llall. Mae awdurdod perthnasol yn cynnwys Gweinidog y Goron neu unrhyw awdurdod cyhoeddus yng Nghymru neu Loegr. Nid yw Adran 83 yn caniatáu Gweinidogion Cymru felly i ddod i drefniant â Gweinidogion yr Alban nac ag adran Gogledd Iwerddon. Gobeithir y gallai'r math hwn o drefniant fod yn effeithiol ac arbed arian. Mae'r diwygiadau a wnaed yn y cam adrodd yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddod i drefniant gweinyddol â Gweinidogion yr Alban, adran Gogledd Iwerddon a Sefydliad Rheoli'r Môr (MMO) i arfer swyddogaethau pysgodfeydd a swyddogaethau sy'n ymwneud â symud cynnyrch pysgodfeydd.

Rydym yn gallu rhagweld sefyllfaoedd yn y dyfodol lle byddem am i Weinyddiaethau Datganoledig eraill gyflawni swyddogaethau ar ein rhan, er enghraifft, i reoli a gorfodi, digidol a gwyddonol ac yn ddaearyddol (er enghraifft patrolau gorfodi ar y cyd, a thripiau gwyddonol, â sefydliadau Gogledd Iwerddon).

**2. c) a d)** Ni chafodd diwygiadau i Atodlen 3 ac 8 ac i Atodlen 10 (yn ymwneud â gofynion ymgynghori) eu cyflwyno gan i hyn gael ei ddisodli gan waith gyda Lywodraeth y DU ar ddwyn ymlaen Orchymyn o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cadarnhau i mi yn ysgrifenedig y bydd y Gorchymyn a ddaw yn ymdrin â'r swyddogaethau cydredol yn y Bil, yn amodol ar rai eithriadau penodol sy'n adlewyrchu cymhlethdod y gwaith o reoleiddio cychod pysgota.

**2. e)** Gwnaethom ofyn i Lywodraeth y DU am y diwygiadau hyn yn gynnar yn y broses ond fel y dywedais yn fy llythyr atoch ac wrth agor y ddadl ar yr LCM, oherwydd oedi gan Lywodraeth y DU, nid oedd yn bosibl cadarnhau fersiynau terfynol o rai o'r diwygiadau angenrheidiol cyn y ddadl.

Mae pwynt 3 eich llythyr yn ymwneud â'r Memorandwm Cydsynio Deddfwriaethol Ategol (rhif 2).

**3. a)** Yng ngoleuni'r llythyrau a gyfnewidiwyd yn ddiweddar, rwy'n fodlon ag ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Victoria Prentis AS, ac rwy'n hyderus y gallwn gytuno ar eiriad terfynol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, o fewn y paramedrau a bennwyd yn y llythyrau, gan ddarparu'r lefel angenrheidiol o ymgynghori a chyfranogi ynghylch defnyddio pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol.

Rwy'n nodi cryfder y teimladau ynghylch y mater hwn a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i wasgu am gynnydd buan a chyflawni'r ymrwymiadau a wnaed ynghylch y Memorandwm, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu nawr ar y cyd gan swyddogion o bob un o'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.

**3. b)** Cafodd fy ymrwymiad i lunio adroddiad chwemisol i Senedd Cymru ar roi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chymru'n unig ar waith, tan pa bryd bynnag y caiff Bil Pysgodfeydd Cymru ei gyflwyno, ei wneud fel ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Yr un yw fy marn na fydd cymal machlud yn dod â'r budd gorau i ddiwydiant pysgota Cymru ac yn fy marn i, dyma'r ffordd bragmatig ymlaen.

**3. c)** O safbwynt y pwerau yn Atodlen 3, rydych yn gofyn pam fy mod o'r farn ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol cymryd pwerau a allai fod yn rhan o'r llyfr statud am ddegawdau mewn Bil y DU er mai'r bwriad yw iddo fod ond yn drefniant interim er mwyn rheoli pysgodfeydd yng Nghymru.

Mae'r pwerau trwyddedu pysgodfeydd yn rhan o'r pwerau fframwaith, a phwerau interim yn ein barn ni yw'r pwerau yn y Bil nad ydynt yn rhai fframwaith. Maent yn gymwys i drwyddedu cychod pysgota o Gymru a chychod pysgota tramor sy'n pysgota yng Nghymru a pharth Cymru. Mae'r fframwaith yn ein galluogi i drwyddedu gweithgareddau pysgota mewn ffordd gydlynol ar draws y DU mewn perthynas â chychod pysgota'r DU a thramor.

Yn fy marn i, mae'r pwerau hyn wedi'u drafftio'n briodol ar gyfer sicrhau bod ein system trwyddedu pysgodfeydd yn gweithio'n effeithiol, nawr ac yn y dyfodol. Bydd Senedd Cymru'n cael craffu ar ddefnydd Gweinidogion Cymru o'r pwerau gwneud rheoliadau yn Atodlen 3.

Yn dilyn eich argymhellion 6 a 7 yn eich adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memorandwm rhif 2) ynghylch ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, fe nodwch yn eich llythyr eich bod yn poeni o hyd y gallai Senedd Cymru fod yn colli pwerau. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor na fyddwn yn colli pwerau. Yn fy marn i, rwyf wedi rhoi eglurhad llawn yn fy llythyrau ar 3 Medi ac 1 Hydref sy'n esbonio'r darpariaethau hyn yn fanwl.

Byddaf yn ysgrifennu ar wahân atoch chi, ac i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ac at yr holl Aelodau, i gadarnhau canlyniad Cam Adrodd Tŷ'r Cyffredin a'r Trydydd Darlleniad.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS Cymru, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Eitem 4.5

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

seneddNHAMG@senedd.cymru

3 Tachwedd 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Hydref, ynghylch Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019.

Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad ar drwsio a cynnal a chadw eich cyfarpar sefydlog a iawndal diwedd tenantiaeth, nid fy mwriad oedd cynnwys trwsio ac adnewyddu draeniau caeau ac argloddiau llifogydd fel rhwymedigaethau newydd o fewn y rheoliadau diwygio.

Rhoddodd yr ymateb Rhyddid Gwybodaeth a anfonwyd at Gymdeithas y Ffermwyr Tenant ar 31 Mawrth yr holl ddogfennau mewnol sy'n gysylltiedig â datblygu'r rheoliadau.

Rwy'n deall bod Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn siomedig â'r penderfyniad. Fodd bynnag, mae tenantiaethau amaethyddol yn agwedd bwysig iawn o'n sector amaethyddol. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfraith denantiaeth yn y dyfodol yn cefnogi'r sector i addasu i newid, defnyddio cynlluniau newydd a gwella cynhyrchiant.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r Grŵp Diwydiant Diwygio Tenantiaeth a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu a darparu diwygiadau sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng tenantiaid a landlordiaid. Bydd newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol yn cael eu hamlinellu yn y Papur Gwyn yr wyf yn bwriadu ei gyhoeddi cyn diwedd tymor y Senedd hon.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.6

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA/LG/2635/20

Mike Hedges AS
Pennaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

seneddNHAMG@senedd.cymru

6 Tachwedd 2020

Annwyl Mike

Yn dilyn fy llythyr ar 13 Hydref 2020 mewn perthynas â newidiadau i'r fframweithiau cyffredin sy'n dod o dan fy mhortffolio i, rwyf am egluro'r sefyllfa ynghylch meysydd dau fframwaith.

Crybwyllais yn fy llythyr fod pedair llywodraeth y DU wedi cytuno nad oes fframwaith yn ofynnol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) neu farchnata a thyfu Organebau a Addaswyd yn Enetig (GMO). Fodd bynnag yn Nadansoddiad Llywodraeth y DU o'r Fframwaith Diwygiedig, mae SEA wedi'i restru fel fframwaith anneddfwriaethol posibl a GMO fel fframwaith deddfwriaethol posibl.

Fel yr amlinellais yn fy llythyr cynharach, mae swyddogion ar draws y Llywodraethau wedi gweithio gyda'i gilydd i ystyried ailddosbarthiad y fframweithiau cyn cyhoeddi'r Dadansoddiad o'r Fframweithiau Diwygiedig. Daethpwyd i'r casgliad nad oes fframwaith yn ofynnol ar gyfer y ddau faes hyn. O ran fframweithiau sy'n dod o dan bortffolio Defra, cytunwyd ar yr allbynnau yn sgil yr ymarfer ailddosbarthu, gan gynnwys y Fframwaith GMO, gan y Gweinidogion a oedd yn rhan o'r Grŵp Rhynglywodraethol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (IMG-EFRA).

Felly, rwy'n cadarnhau bod y sefyllfa a nodais yn fy llythyr yn gywir ac o ganlyniad nid yw'r meysydd sy'n ymwneud â SEA a GMO yn cael eu datblygu fel fframweithiau.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa ynghylch y ddau fframwaith hyn.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.